CLWB MYNYDDA CYMRU
CYFARFOD BLYNYDDOL 2024 6.00 y h., 16eg o DACHWEDD 2024,
GWESTY OAKLEY ARMS, MAENTWROG.

1. **Croeso**

Estynnodd Steve Williams, Cadeirydd y Clwb, groeso cynnes i'r aelodau i'r cyfarfod a diolchodd i Manon a John Parry am arwain y teithiau yn ystod y dydd.
Wrth i'w gadeiryddiaeth ddod i ben cyfeiriodd at y mwynhad a gafodd yn ystod ei gyfnod yn y Gadair a chymaint ddysgodd. Nododd ei fod wedi mynd trwy ddogfennau a lluniau o ddyddiau cynnar y Clwb gyda'r bwriad iddynt gael eu trosglwyddo maes o law i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth a theimlai'n falch o gael y cyfle i arwain clwb â hanes mor gyfoethog iddo dros y ddwy flynedd diwethaf.

Ar ran y Pwyllgor ac aelodau'r Clwb, diolchodd Elen, Cadeirydd newydd y Clwb i Steve am ei wasanaeth fel Cadeirydd dros y ddwy flynedd diwethaf ac am ei weithgarwch ar ran y Clwb. Ymysg pethau eraill bu'n arwain casglu'r archif o ddogfennau o ddyddiau cynnar y Clwb ac yn arwain teithiau blasu. Cyflwynwyd rhodd fechan i Steve fel cydnabyddiaeth o'i gyfraniad.

**2. Ethol Cadeirydd 2024 - 2026**

Etholwyd Elen Huws yn Gadeirydd y Clwb am y cyfnod 2024 - 2026

Dywedodd Elen iddi fod yn aelod o'r Clwb ers y dyddiau cynnar ac wedi cael mwynhad a phleser enfawr o fod yn aelod. Roedd cael ffrindiau da i gyd gerdded y mynyddoedd a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhywbeth roedd yn ei drysori. Edrychai ar wasanaethu fel Cadeirydd yn ffordd iddi ad-dalu ei dyled enfawr i'r Clwb.

3. **Ymddiheuriadau** :

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

Eurig James
Gethin Rowlands
Dewi Hughes

4. **Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2023**

Derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2023 a gynhaliwyd ar 11eg Tachwedd, 2023 yng Ngwesty'r Royal Oak, Betws y Coed fel rhai cywir.

5. **Adroddiad y Trysorydd**.

A. Cyflwynwyd adroddiad a datganiad ariannol ar gyfer 2023/2024 gan Dilys.

Adroddwyd

i. bod nifer yr aelodau eleni yn 262 yn talu'r tâl aelodaeth o £25 y pen ac mai dyma brif ffynhonnell incwm y Clwb. Yn ogystal bod 59 o gyn-aelodau, oedd am ba bynnag reswm, yn

dal i wneud taliadau blynyddol i'r Clwb ond nid y tâl aelodaeth llawn ac fe dderbyniwyd swm o £980 ganddynt.
ii. bod gan y Clwb swm o £6,764.49 yn ei gronfa gyffredinol a oedd yn gynnydd o oddeutu £1,700 o'i gymharu â'r sefyllfa ar ddechrau'r flwyddyn ariannol flaenorol. Credai felly fod sefyllfa ariannol y Clwb yn iach a chadarn ar hyn bryd.
iii. bod y swm o £360 yn weddill yng Nghronfa Goffa Gareth Pierce ac y byddai'r arian hwn yn mynd tuag at benwythnos fynydda i bobl ifanc a gynhaliwyd ym mis Hydref eleni ar y cyd gyda'r Urdd
iv. bod y Clwb yn perthyn i'r Cyngor Mynydda Prydeinig (CMP) gyda'r gost ymaelodi yn gyfredol yn £23.90 y pen ond y byddai hyn yn cynyddu i £29.33 o Ionawr 2025 ymlaen. Ni fyddai £25, tâl aelodaeth presennol y Clwb, yn cwrdd â'r codiad yma ond gan bod sefyllfa ariannol bresennol y Clwb yn iach, credai y gellid defnyddio'r arian o gronfa gyffredinol y Clwb i gwrdd â'r cynnydd hwn yn 2025 ond ni fyddai hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir
v. yr hoffai ddiolch i George Jones, archwiliwr cyfrifon y Clwb, am ei waith trylwyr ac am ei barodrwydd i ymdopi â'r cynnydd yn y gwaith papur ynghlwm ag archwilio'r cyfrifon i gwrdd â gofynion y Comisiynydd Elusennau.

Cytunwyd

i. derbyn yr adroddiad a'r cyfrifon ar gyfer 2023/2024
ii. cytuno i ddefnyddio arian o goffrau'r Clwb i gwrdd â chynnydd yn nhâl aelodaeth y CMP o'r 1af Ionawr 2025 a gofyn i'r Pwyllgor roi sylw i hyn ac adrodd yn ôl ar y mater i'r Cyfarfod Blynyddol yn 2025
iii. ategu y diolch i George Jones am ei holl waith.

**6. Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth**.

Adroddodd Iolo y cynhaliwyd tri chyfarfod arferol o'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, sef ym misoedd Ionawr, Mai a Medi ac fe gynhaliwyd un cyfarfod brys ym mis Hydref, i gyd drwy gyfrwng Zoom

Un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yw cadw llygaid ar faterion ariannol y Clwb ac fe geir diweddariad gan y Trysorydd ym mhob cyfarfod. Cytunodd y Pwyllgor i ddefnyddio'r arian oedd yn weddill yn y gronfa er cof am Gareth Pierce i gefnogi'r Urdd i drefnu ail gwrs penwythnos o fynydda a gweithgareddau awyr agored i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nglan Llyn a gynhaliwyd eleni ar 4-6 Hydref, 2024, math o weithgaredd a fyddai wedi bod yn agos at galon Gareth.

Yn y Cyfarfod Blynyddol y llynedd cafwyd nifer o awgrymiadau gan aelodau fel a ganlyn:

A. Taliadau i'r Cyngor Mynydda Prydeinig (CMP)

Yn y cyfarfod cafwyd gwybod gan y Trysorydd fod rhan helaeth tâl aelodaeth y Clwb yn cael ei dalu i'r CMP. Holwyd beth oedd y manteision o wneud hynny ac fe ofynnwyd i'r Pwyllgor roi ystyriaeth pellach i'r mater. Hefyd i'r Ysgrifennydd Gweithgareddau , yn un o'i negeseuon rheolaidd i'r aelodau, nodi fod y Cyfarfod Blynyddol yn annog aelodau i fynychu cyfarfodydd rhanbarthol y CMP er mwyn sicrhau bod dylanwad trigolion lleol a Chymry Cymraeg ynddynt.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i hyn yn ei gyfarfod ym mis Ionawr ac fe nodwyd fod Gwyn Williams (Llanrwst), ar gais y Pwyllgor, wedi edrych i mewn i hyn yn y gorffennol a chanfod fod yr yswiriant a dderbynnir drwy aelodaeth o'r CMP yn gystadleuol a hefyd ei bod o fantais i'r Clwb

fod yn aelod o gorff sydd â dylanwad yn y byd mynydda. Yn sgil hyn penderfynodd y Pwyllgor fel a ganlyn:

*i. ategu fod y Pwyllgor o'r farn ei bod o werth i'r Clwb fod yn aelod o'r CMP*
*ii. cytuno â'r awgrym fod yr Ysgrifennydd Gweithgareddau ,yn un o'i negeseuon rheolaidd i'r aelodau, yn nodi fod y Cyfarfod Blynyddol yn annog aelodau i fynychu cyfarfodydd rhanbarthol y CMP er mwyn sicrhau bod dylanwad trigolion lleol a Chymry Cymraeg ynddynt.*
*iii. byddai Steve yn rhoi gwybod i Richard am ddyddiadau'r cyfarfodydd rhanbarthol dan sylw*

Bu datblygiadau pellach ynglŷn â thaliadau i'r CMP yn ddiweddarach yn y flwyddyn fel a nodwyd eisoes gan y Trysorydd yn ei hadroddiad, pan gafwyd ar ddeall y disgwylir y bydd y taliadau a wneir i'r CMP gan glybiau ar ran eu haelodau yn codi i oddeutu £29 y pen yn 2025. Gan mai ond £25 yw tâl aelodaeth y Clwb nid yw'r sefyllfa yn gynaliadwy yn y tymor hir a thra roedd y Trysorydd o'r farn fod gan y Clwb ddigon o arian yn y coffrau i ysgwyddo'r cynnydd yn 2025 byddai'n rhaid edrych ar faint y tâl aelodaeth yn y dyfodol.

Cynhaliwyd cyfarfod brys o'r Pwyllgor i ystyried hyn ar 28ain o Hydref ac fe adroddir ar y sefyllfa i'r Cyfarfod Blynyddol i roi ystyriaeth i'r mater.

B. Archif

Yn y Cyfarfod Blynyddol holwyd beth oedd y sefylla ynglŷn â'r bwriad i greu archif o 'r dogfennau yn ymwneud â sefydlu'r Clwb, nifer ohonynt wedi cael eu harddangos yn stondin y Clwb yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst yn 2019.

Rhoddwyd ystyriaeth i hyn gan y Pwyllgor a chysylltodd Steve, y Cadeirydd, â nifer o aelodau a oedd ynglŷn â sefydlu'r Clwb a chasglu'r dogfennau perthnasol at ei gilydd. Byddant maes o law yn cael eu trosglwyddo i'r Llyfrgell Genedlaethol yn y gobaith y byddant yn cael eu rhoi ar wefan y Llyfrgell fel y bydd hanes sefydlu a dyddiau cynnar y Clwb wedi ei ddiogelu ac ar gael i'w weld gan unrhyw un yn y dyfodol. Roedd y Pwyllgor yn hynod o ddiolchgar i Steve am ei holl waith ac yn sicr byddai'r Cyfarfod yn ategu hyn. Roedd y ffolderi o ddogfennau a gasglwyd ar gael i'w harchwilio gan yr aelodau yn y Cyfarfod.

Rhoddwyd amlinelliad o'r materion oedd wedi dwyn sylw'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ac fe gyfeiriwyd yn arbennig at yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd eleni a'r gweithgareddau'r a drefnwyd yn enw'r Clwb. Traddododd Gerallt Pennant Ddarlith Goffa Llew Gwent yn olrhain hanes datblygiad cerdded y Munroau yn yr Alban ac fe gynhaliwyd Taith Goffa Gareth Pierce gyda 21 yn ymuno â thaith ar Fynydd y Glyn o dan arweiniad Dewi Hughes. Roedd y Pwyllgor yn hynod o ddiolchgar i'r aelodau hynny a fu ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer y gweithgareddau hyn ac i Gerallt am draddodi'r ddarlith.

Derbyniwyd yr adroddiad ac fe ategwyd y diolch a gwerthfawrogiad i Steve am ei holl waith yn hel dogfennau ar gyfer archif y Clwb.

## 7. **Adroddiad yr Ysgrifennydd Gweithgareddau**.

Yn ei adroddiad diolchodd Richard i bawb oedd wedi cytuno i arwain teithiau yn ystod y flwyddyn; mae parodrwydd aelodau i ymgymryd â'r fath gyfrifoldeb yn hanfodol i lwyddiant y Clwb. Diolchodd hefyd i Manon a John Parry am arwain teithiau yn ystod y dydd.

Nododd ers  dechrau’r flwyddyn y trefnwyd 53 o deithiau amrywiol ar benwythnosau ac  11 ar ddyddiau Mercher. Mae hyn yn golygu bod o leiaf un daith pob wythnos wedi  eu cynnig Diolchodd  yn arbennig i’r rhai oedd  wedi arwain taith am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn  yn argoeli’n ardderchog  i ddyfodol y Clwb.

Cafwyd  dwy daith flasu dan arweiniad Steve  Williams, y naill ar Foelydd yr Wyddfa  ar ddechrau mis Mai a’r llall dros y ddwy Glyder ddiwedd mis Medi. Roedd yn braf gallu adrodd bod rhai o’r ‘blaswyr’ wedi cael eu hysbrydoli i ymaelodi. Diolchodd  i’r aelodau hynny a fu’n cynorthwyo a chroesawu’r rhai a ddaeth i flasu’r hyn y mae’r Clwb yn ei gynnig.

Cynhaliwyd  dwy daith breswyl i’r Alban ac un i Swydd Efrog.  Diolch i Keith Roberts a Gwyn Williams am eu trefnu.

- Taith aeaf i Crianlarich. Ym mis Chwefror, bu 23 o aelodau yn dringo nifer helaeth o gopaon rhwng ardal Glen Lyon yn y dwyrain a Glencoe yn y gorllewin.

- Taith haf i Onich. Mwynhaodd 19 o aelodau dywydd hafaidd dros ben ddiwedd mis Mai a llwyddwyd i ddringo nifer helaeth o gopaon.

- Taith i Hawes, Swydd Efrog - aeth 19 o aelodau yno i fwynhau tywydd a theithiau ardderchog

Mae trefniadau ar y gweill i gynnal  taith i ardal  Crianlarich yn 2025 ar 8-15 Mawrth  a thaith haf i’r Cairngorms.

Penwythnos Mynydda, Gwersyll Glan Llyn, 4-6 Hydref 2024

Roedd yr arian oedd yn weddill yn y gronfa a sefydlwyd er cof am Gareth Pierce wedi ei ddefnyddio i gefnogi cynnal cwrs mynydda ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 ac 18 oed yng Ngwersyll Glan Llyn, ar  4-6 Hydref 2024

Gwefannau Cymdeithasol

Mynegodd ddiolch  i arweinyddion teithiau a’u cyd-fynyddwyr am anfon adroddiadau a lluniau o deithiau at Iolo ap Gwynn. Roeddynt yn  cael eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol a hynny’n hysbysebu effeithiol dros ben i’r Clwb. Roedd hefyd yn gwerthfawrogi yn arw gydweithrediad Iolo ap Gwynn fel ysgrifennydd y wefan am ei holl waith yn gosod y rhaglenni gweithgareddau ar y wefan ac yn ei diweddaru ag unrhyw ddiwygiadau yn ôl yr angen

Llongyfarchiadau

Cyfeiriodd at y ffaith fod Gerallt Pennant wedi dringo pob  Munro, yr olaf -  Buchaille Etive Beag yn Glencoe - gyda chriw o gyd-aelodau yn ystod y daith aeaf i Crianlarich tra yn ystod y daith haf i Onich cwblhaodd  Dwynwen Pennant yr un gamp ar gopa  Carn Mor Dearg - yr un diwrnod fe ailddringodd Ben Nevis, sef y Munro cyntaf iddi ei ddringo. Yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn cyrhaeddodd aelod arall o’r Clwb, Catrin Jones, gopa ei Munro olaf – Beinn na Lap.

Hefyd llongyfarchodd Dwynwen Pennant a Manon Davies ar gwblhau ac ennill cymhwyster Arweinydd Mynydd (haf) yn ystod y flwyddyn.

Derbyniwyd yr adroddiad ac fe ategwyd llongyfarchiadau’r Cyfarfod i’r unigolion a nodwyd uchod.

**8. Adroddiad Ysgrifennydd y Wefan**.

Cafwyd adroddiad gan Iolo ap Gwynn ar faterion gwefan y Clwb

Adroddodd ar y canlynol :

Bu’r flwyddyn ers Tachwedd 2023 yn un eithaf prysur a chofnodwyd hanesion 58 o deithiau a gweithgareddau ar y wefan – ynghyd â’r lluniau perthnasol ar Flickr. Mae’r wefan a’r cyfrif Gweplyfr/Facebook yn ffordd ddefnyddiol i gysylltu ag aelodau ac i ddarganfod aelodau newydd. Mae hefyd yn ddefnyddiol pan mae angen diweddaru’r Rhaglen – weithiau ar y funud olaf!

Mae’r wefan yn dal yn gydnaws â ffonau clyfar a llechi iOS ac Android yn ogystal â phorwyr ar bob math o gyfrifiaduron. Ers Tachwedd 2023, defnyddiwyd y wefan filoedd o weithiau (y rhan fwyaf o’r DG, nifer o’r UDA a rhai o wledydd eraill). Hefyd roedd bron 1.3k o ddilynwyr cyson ar ein tudalen ar y Gweplyfr (Facebook) ble gosodir cyhoeddiadau ac adroddiadau ar weithgareddau. Mae’r cyfrifon Gweplyfr/Facebook, X (Trydar Twitter) ac Instagram yn dal yn weithgar, i gyd yn cyd-lynu efo’r wefan. Diolchodd i’r aelodau oedd yn gofalu am gyhoeddi gwybodaeth ar X ac Instagram.

Diolchodd i bawb ddanfonodd adroddiadau /hanes teithiau gyda lluniau gwych er y nododd ei fod yn dal i ddisgwyl am adroddiad ar ambell i daith. Bellach, mae tua 12,281 o luniau a dynnwyd gan aelodau’r clwb ar ein teithiau ers 2005, i gyd ar gael drwy’r wefan ar lwyfan Flickr.

Atgoffodd fod tudalen Newyddion ar y wefan hefyd ac fod croeso i bawb ddanfon manylion neu hanes unrhyw beth allai fod o ddiddordeb i’r aelodau

Nododd ei fod yn gwneud swydd Ysgrifennydd y Wefan ers 20 mlynedd bellach ac er mwyn sicrhau dilyniant i’r dyfodol a lleihau’r baich arno, byddai’n ddefnyddiol pe bai gan unrhyw aelod â phrofiad o luniadu/cynnal gwefannau (defnyddir meddalwedd Adobe Dreamweaver i olygu’r wefan) ddiddordeb mewn cynorthwyo gyda’r gwaith. Byddai’n ddiolchgar pe byddent yn cysylltu ag ef.

Yn y drafodaeth ar y adroddiad cyfeiriwyd at yr archif o ddogfennau am hanes cynnar y Clwb dan ofalaeth Steve a holwyd a fyddai’n bosib i’r wybodaeth, a fyddai’n cael ei chynnig i’r Llyfrgell Genedlaethol maes o law, gael ei digideiddio fel y gellid gosod rhywfaint o’r dogfennau a lluniau ar wefan y Clwb hefyd fel y byddent ar gael i aelodau eu harchwilio. Nodwyd hefyd y gellid o bosib ddefnyddio cwmni allanol i wneud y gwaith digideiddio.

Penderfynwyd

i. derbyn y wybodaeth a diolch i Iolo am ei holl waith
ii. gofynnodd y Cadeirydd i’r neges fynd allan i’r aelodaeth i weld a oedd aelodau ar gael i gynorthwyo Iolo fel yr oedd wedi holi yn ei adroddiad.
iii. gofyn i Iolo a’r Pwyllgor edrych i fewn i’r posibilrwydd o ddigideiddio yr archif o ddogfennau’r Clwb a gasglwyd.

**9. Swyddogion y Clwb**

Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 2025:

**Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth** : Iolo Roberts
**Ysgrifennydd Gweithgareddau :** Richard Roberts
**Ysgrifennydd y Wefan :** Iolo ap Gwynn
**Trysorydd:** Dilys A Phillips

**10. Ethol Is-Gadeirydd**

Etholwyd Keith Roberts i wasanaethu fel Is-Gadeirydd y Clwb

**11. Aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2025**

Adroddwyd gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol

A. fod angen i'r Cyfarfod Blynyddol gadarnhau aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2025. Roedd aelodaeth bresennol 2024 y Pwyllgor fel a ganlyn:

Steve Williams – Cadeirydd
Elen Huws – Is-gadeirydd
Dilys Phillips – Trysorydd
Richard Roberts– Ysgrifennydd Gweithgareddau
Iolo ap Gwynn – Ysgrifennydd y Wefan
Iolo Roberts – Ysgrifennydd Cyffredinol
Dewi Hughes
Raymond Griffiths
Sioned Ll Jones
Keith Roberts
Dwynwen Pennant
Gethin Rowlands
Eurig James

B. Roedd y Cyfarfod eisoes wedi ethol Elen i'r Gadair a Keith fel Is-gadeirydd a hefyd wedi cadarnhau y swyddogion ar gyfer 2025

C. Yn ôl y cyfansoddiad mae traean aelodau'r Pwyllgor (yr ymddiriedolwyr)yn ymddeol yn flynyddol, sef 4 aelod, er bod hawl i unrhyw un ohonynt gael ei ail-benodi. Y rhai sydd i ymddeol yw'r rhai sydd wedi gwasanaethu hiraf, sef

Sioned Ll Jones
Keith Roberts
Raymond Griffiths
Steve Williams

Roedd Keith Roberts a Steve Williams wedi cytuno i barhau i wasanaethu ar y Pwyllgor ac felly angen eu hail ethol. Fodd bynnag roedd Sioned Ll Jones a Raymond Griffiths wedi datgan eu bod am roi'r gorau iddi eleni ac felly roedd dwy sedd wag ar y Pwyllgor ar gyfer 2025

CH. Enwebwyd Erwyn Jones a Mathew Williams i fod yn aelodau o'r Pwyllgor ar gyfer 2025 cyn belled â bod y Cyfarfod Blynyddol yn cytuno.

Cytunwyd

i. derbyn yr adroddiad a derbyn enwebiadau Erwyn Jones a Mathew Williams i fod yn aelodau o'r Pwyllgor ar gyfer 2025

ii. bydd aelodaeth y Pwyllgor ar gyfer 2025 fel a ganlyn felly

Elen Huws – Cadeirydd
Keith Roberts – Is-gadeirydd
Dilys Phillips – Trysorydd
Richard Roberts– Ysgrifennydd Gweithgareddau
Iolo ap Gwynn – Ysgrifennydd y Wefan
Iolo Roberts – Ysgrifennydd Cyffredinol
Dewi Hughes
Dwynwen Pennant
Gethin Rowlands
Eurig James
Steve Williams
Erwyn Jones
Mathew Williams

iii. diolch i Raymond a Sioned am eu gwasanaeth ar y Pwyllgor

**12 Archwilydd**

Penodwyd George Jones fel archwilydd.

**13. Unrhyw Fater Arall**

Codwyd y materion canlynol:

<u>Enwau Cymraeg</u>

Adroddodd Eryl Owain iddo fod yn casglu enwau Cymraeg posibl ar gyfer mynydd-dir Eryri ers peth amser ond heb symud pethau ymlaen llawer yn y misoedd diwethaf. Rhoddodd amlinelliad o'r hyn y bu'n ei wneud a holodd a fyddai aelodau â diddordeb yn y maes hwn ymuno ag ef i fod yn rhan o weithgor bach fyddai'n trafod pethau'n fwy manwl a chynnig argymhellion sut i symud ymlaen.

Cynigiodd y camau canlynol (i gael eu gweithredu ochr yn ochr) fel ffordd bosib i symud ymlaen ar hyn:

Cam Un - cynnig argymhellion am enwau i ddisodli'r enwau Saesneg yn unig sy'n ymddangos ar fapiau'r Arolwg Ordnans a phwyso arnynt i beidio â chofnodi enw Saesneg ochr yn ochr ag un Cymraeg - e.e. Nameless Cwm/Cwm Bochlwyd, Clogwyn y Tarw/Gribin Facet. Ceisio cael cefnogaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cynghorau Sir Gwynedd a Chonwy, y BMC, yr Urdd ac ati i hyn. Efallai bod y gwynt o'n plaid gyda'r penderfyniad i beidio â defnyddio enwau Snowdon/Snowdonia yn derbyn croeso lled eang.

Cam Dau - llunio rhestr o enwau Cymraeg ar gyfer nodweddion amlwg ac adnabyddus nas cofnodwyd ar fapiau'r AO ond lle mae enw Saesneg yn cael ei ddefnyddio e.e. Cneifion Arrett, Seniors' Ridge ac ati. Angen wedyn hysbysebu a phoblogeiddio'r defnydd o'r enwau Cymraeg amgen - e.e. ymysg ein haelodau, cyfryngau cymdeithasol, cysylltu â'r canolfannau awyr agored

ac ati. Roedd wedi lled drafod â rhai o swyddogion y Parc y syniad o ddarparu mapiau darluniadol ger mannau cychwyn y llwybrau poblogaidd yn nodi'r enwau hyn.

Adroddodd Sian Shakespear ei bod wedi cael ar ddeall fod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi clywed gan yr AO eu bod yn fodlon defnyddio enwau Cymraeg ar eu mapiau.

Cytunwyd
i. diolch i Eryl am ei holl waith a nodi cefnogaeth cryf y Cyfarfod i'r bwriad
ii. gofyn i'r Ysgrifennydd Gweithgareddau yrru e-bost yn gofyn i aelodau gyda diddordeb i helpu Eryl gyda'r gwaith i gysylltu ag ef

---------------------------------------------------------------

Ar ddiwedd y cyfarfod diolchodd Elen i bawb am fynychu ac i Manon a John Parry am arwain teithiau llwyddiannus yn ystod y dydd a mynegodd obaith y byddai pawb yn mwynhau eu cinio a chymdeithasu gyda chyd aelodau. Dymunodd yn dda i bawb dros y Nadolig ac ar fynydda yn 2025.